# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 10FED MAWRTH, 2025**

***I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 3ydd Mawrth 2025)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Alan Jones Evans
Huw Rowlands
Arwyn Herald Roberts
Sedd Wag x 2

Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
John Brynmor Hughes
Hefin Underwood

Angela Russell
Anwen J. Davies

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** 6 - 20

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 21-01-25
b) 02-12-24
c) 11-11-24

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 11-11-2024**

**Presenoldeb:** Cadeirydd: Cynghorydd Elfed Williams
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams (Cadeirydd), Arwyn Herald Roberts, Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau - Adran Gyfreithiol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Alan Jones Evans a'r Cyng. Hefin Underwood

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 10fed o Fehefin 2024 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 10fed o Fehefin, 25ain o Orffennaf 2024 a'r 6ed o Hydref 2024

**6. CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD – TRINIAETHAU ARBENNIG**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gynllun trwyddedu newydd ar gyfer 'Triniaethau Arbennig' gan Lywodraeth Cymru fydd yn cael ei weithredu Tachwedd 2024 dan Rhan 4 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017; gan gynnwys Rheoliadau Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 a Rheoliadau Pwyllgor-au Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor, mewn cyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, wedi derbyn gwybodaeth am brif ofynion a goblygiadau'r cynllun ynghyd a chyflwyniad o'r prif egwyddorion gan Dr Sarah Jones, Uwch Ymgynghorydd Iechyd yr Amgylchedd i Lywodraeth Cymru.

Adroddwyd mai bwriad y cynllun oedd lleihau'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r triniaethau megis tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig, aciwbigo, nodwyddau sych ac electrolysis, a bydd y cynllun trwyddedu newydd yn un gorfodol. Bydd y drefn newydd yn golygu gofyn i Awdurdodau Lleol fod yn gyfrifol am orfodi gofynion trwyddedu

a chadw cofrestr o drwyddedau triniaethau arbennig a roddwyd ganddynt. Bydd hi'n ofynnol i Ymarferwyr Triniaethau Arbennig ddangos eu cymhwysedd i ymgymryd â'r triniaethau hyn drwy gwblhau hyfforddiant a bod yn destun archwiliad gan Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd (Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd). Yn ogystal, bydd yn rhaid iddynt ddarparu DBS Sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded.

Tynnwyd sylw at rôl y Pwyllgor Trwyddedu Canolog gan amlygu bod Deddf 2017 (cymal 21, Atodlen 3) yn dirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgor trwyddedu'r Awdurdod sydd wedi ei sefydlu o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003 (h.y. y Pwyllgor Trwyddedu Canolog) ac mae'n caniatáu i'r Pwyllgor wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny. Amlygwyd y bydd Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd yn cyflwyno Hysbysiad o Rybudd i'r ymarferwyr hynny sydd ddim yn ymateb i ofynion y cynllun, ond y bydd gan yr ymarferwyr hawl i gyflwyno ymatebion. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Trwyddedu Canolog fydd ystyried yr ymatebion hynny a phenderfynu os dylid gweithredu yn unol â'r camau fydd wedi eu gosod allan yn yr Hysbysiad o Rybudd. Ategwyd bod y Ddeddf Trwyddedu 2003 yn caniatáu i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ddirprwyo'r swyddogaeth yma i Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog sydd eisoes wedi ei sefydlu a'r Aelodau yn brofiadol wrth ystyried a phenderfynu ceisiadau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan yr aelodau:

- Croesawu'r cynllun newydd
- Cefnogi'r angen i fonitro gwaith ymarferwyr – gormod o enghreifftiau o driniaethau gwael
- Angen ystyried addasrwydd lleoliadau
- Awgrym i osod bathodyn ar ffenest eiddo / cerbyd yn amlygu'r safon

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod y grŵp sydd yn gweithredu dyfodiad y pwerau newydd yn creu canllawiau statudol pendant a gweithdrefnau caeth yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd fydd yn ystyried lleoliadau, safonau hylendid, diogelwch a materion cyfreithiol. Bydd modd i'r Adran Trwyddedu ystyried os bydd angen Polisi Addasrwydd lleoliadau i'r dyfodol. Ategwyd bod y ddeddfwriaeth yn dod i rym mewn ymateb i enghreifftiau gwael o driniaethau gan orfodi system drwyddedu, grymus i reoli'r sefyllfa. Bydd cofrestr genedlaethol o ymarferwyr wedi eu trwyddedu ar gael i'r cyhoedd.

Yng nghyd-destun gosod bathodyn safon ar ffenestr eiddo / cerbyd, nodwyd bydd gofyn i'r ymarferwyr arddangos tystysgrif cymhwyster o fewn yr eiddo a bod hyn yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Bydd ymarferion archwilio yn cael eu cynnal gan Swyddogion iechyd yr Amgylchedd fydd yn gwirio pob eiddo cyn trwyddedu. Os na fydd y safon yn cyrraedd y nod, yna bydd Hysbysiad o Rybudd yn cael ei gyflwyno i'r ymarferydd, fydd yn ei dro yn cael ei ystyried ymhellach gan Swyddogion neu eu cyfeirio at Is-bwyllgor.

Ategwyd y bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd gyda'r arbenigedd a'r cymwysterau i gwblhau'r gwaith heriol yma ac y byddant yn ceisio eu gorau i ddilyn gofynion y Ddeddf.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwyo Is-ddirprwyo swyddogaethau a ddirprwyid i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog o dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 i'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.40am a daeth i ben am 11:15am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**Ionawr 21ain 2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Angela Russell a Gareth Williams
Hefin Underwood (arsylwi)

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS TRWYDDED EIDDO: Cais Trwydded Eiddo New Bangor Grill, Uned 25, Canolfan Deinol, Bangor**

- Paul Tough — Franchise Options (Ymgeisydd)
- Aaron Haggas — Swyddog Trwyddedu Yr Heddlu, Heddlu Gogledd Cymru

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adan Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer lle bwyd a gynlluniwyd ar gyfer casglu/bwyd parod, danfon bwyd a gweini nifer fach i fwyta tu mewn i'r eiddo. Bydd cynnyrch wedi ei grilio, pwdinau a diodydd oer (dim alcohol) yn cael eu gwerthu yno. Gwnaed y cais mewn perthynas a darparu Lluniaeth Hwyr yn y Nos ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymateb a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori. Er nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth o Drosedd ac Anhrefn fyddai'n uniongyrchol yn ymwneud â'r safle i gyfiawnhau gwrthwynebu'r cais, roeddynt yn pryderu bod yr ymgeisydd wedi nodi ei fwriad i beidio cyflogi staff diogelwch drysau ar

benwythnosau ac ar adegau prysur gan ei fod yn credu y gall hyn ddychryn cwsmeriaid, gan ychwanegu bod lleoliad Gorsaf yr Heddlu gerllaw.

Roedd yr argymhelliad yn nodi y dylai'r Is-bwyllgor ystyried sylwadau Heddlu Gogledd Cymru gan ystyried cynnwys amod ar y drwydded o safbwynt darpariaeth swyddogion diogelwch ar y drws os caiff y cais ei gymeradwyo, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod y cwmni masnachol Franchise Options bellach yn gwmni cenedlaethol
- Nad oedd gan eu masnachwyr hanes o unrhyw drwbl gyda'r nos
- Ei fod yn deall pryderon yr Heddlu
- Bod noson agoriadol y busnes ym Mangor wedi bod yn llwyddiannus - dim trwbl.
- Bod yr eiddo wedi ei drefnu yn ofalus ac i'r safon uchaf
- Bod TCC wedi ei osod - chwe camera rhai tu mewn a rhai tu allan - hyn felly yn fodd o adnabod unrhyw drwbl a'r staff yn gallu edrych ar y camerâu mewn gwir amser
- Ni fydd alcohol yn cael ei werthu ar yr eiddo
- Ei fod yn edrych ymlaen at lwyddiant yr eiddo ym Mangor. Masnachwr Bangor yn ddyn busnes lleol gyda busnesau eraill yn y Ddinas
- Y cwmni yn dymuno bod yn rhan o'r gymuned leol - eisoes wedi noddi tîm peldroed yn y Ddinas

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhaglen hyfforddiant i'r staff, nodwyd bod y staff wedi derbyn hyfforddiant am ddiogelwch bwyd a thrin bwyd, diogelwch cwsmeriaid a staff, a thrin arian cyn i'r busnes agor. Bydd y staff hefyd yn derbyn cefnogaeth a chymorth gan dîm rheoli swyddfa'r cwmni. Y cwmni yn hybu hyfforddiant i sicrhau enw da.

Mewn ymateb i gwestiwn petai trafferthion yn codi ac a fyddai'r cwmni yn ail ystyried defnyddio swyddogion diogelwch ar y drysau, nododd yr ymgeisydd y byddai yn sicr o ail ystyried. Ei ddymuniad oedd bod y busnes yn llwyddo ym Mangor ac yn masnachu heb drafferthion.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Aaron Haggas, Heddlu Gogledd Cymru**

- Bod agoriad y busnes wedi bod yn llwyddiannus - yn noson brysur a'r busnes yn ychwanegiad da i'r economi leol
- Bod lluniaeth gyda'r nos yn rhan fawr o economi Bangor – yn creu bwrlwm ar y strydoedd

- Rhai dan effaith alcohol ac yn ymddwyn yn amhriodol yn gallu creu awyrgylch fregus i eraill - hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar gwmnïau sydd yn gweini bwyd gyda'r nos i warchod eu staff a'u cwsmeriaid
- Bod yr eiddo mewn lleoliad da o fewn y ddinas,
- Bod angen rheoli pryderon cyn iddynt amlygu eu hunain - defnydd o swyddogion diogelwch ar y drysau yn gyson gyda lleoliadau eraill yn y ddinas ac yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid
- Angen ystyried swyddogion diogelwch drysau fel aelod staff gwerthfawr yn hytrach na gweithred ataliol – yn fodd o ddiogleu'r eiddo
- Rhaid cael economi nos sydd yn ddiogel i bawb
- Yn cynnig i'r ymgeisydd ystyried defnyddio Asesiad Risg Safle Penodol a chadw cofnod o ddigwyddiadau fel dulliau o reoli safle heb staff diogelwch drysau. Byddai asesiad risg yn fodd o ddeall y ddarpariaeth sydd mewn lle ar gyfer diogelu staff a chwsmeriaid.
- Na ellid defnyddio lleoliad Gorsaf yr Heddlu fel modd o atal trosedd

Yn manteisio ar ei hawl i grynhoi ei achos, nododd yr ymgeisydd bod gofynion ar y busnes i gadw cofnodion digwyddiadau, cofnodion damweiniau a chofnodion cwynion eisoes mewn lle ac y byddai'n annog bod asesiad risg yn cael ei gwblhau. Ei ddymuniad oedd bod y fenter yn llwyddo ac yn cyfrannu at adfywiad canol dinas Bangor.

dd) Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cygnor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno**

**Oriau Agor**
**Dydd Sul 11:00 – 02:00**
**Dydd Llun 11:00 – 02:00**
**Dydd Mawrth 11:00 – 02:00**
**Dydd Mercher 11:00 – 02:00**
**Dydd Iau 11:00 – 02:00**
**Dydd Gwener 11:00 – 02:00**
**Dydd Sadwrn 11:00 – 02:00**

**Gweithgareddau Trwyddedadwy: Lluniaeth hwyr yn y nos - Tu mewn**
**Dydd Sul 23:00 – 02:00**
**Dydd Llun 23:00 – 02:00**
**Dydd Mawrth 23:00 – 02:00**
**Dydd Mercher 23:00 – 02:00**

**Dydd Iau 23:00 – 02:00**
**Dydd Gwener 23:00 – 02:00**
**Dydd Sadwrn 23:00 – 02:00**

**Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau.**

**Nodyn: Annog yr ymgeisydd i greu a chadw 'Asesiad Risg Safle Penodol' a 'chofnodion digwyddiad' a fyddai yn rhoi ystyriaeth i ddefnydd swyddogion diogelwch ar y drws os yn berthnasol.**

Yng nghyd-destun **Trosedd ac Anrhefn**, ni gyflwynodd yr Heddlu unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cais ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Er na dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais, derbyniwyd sylwadau ynglŷn â diogelu yn gyffredinol. O ganlyniad, roedd yr Is Bwyllgor yn annog yr ymgeisydd i greu a chadw 'Asesiad Risg Safle Penodol' a 'chofnodion digwyddiad'. Byddai cofnodi digwyddiadau / risgiau yn fodd o ystyried defnydd swyddogion diogelwch ar y drws os byddai digwyddiadau / risgiau o bryder yn codi yn yr eiddo.

Ategwyd, fel unrhyw gais arall, petai unrhyw broblemau yn codi mewn cysylltiad â'r egwyddorion trwyddedu bod y Ddeddf yn caniatáu cyfeirio trwydded i'w hadolygu gan yr awdurdod.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:40

.

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**Rhagfyr 2il 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Gareth M Jones a Gwynfor Owen

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Rhian Medi (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS TRWYDDED EIDDO: City Sports and Cocktail Bar', 20/21 Canolfan Menai, Bangor**

**Eraill a wahoddwyd:**

- Chris O'Neal — Ymgeisydd
- Gilly Haradence — Cynrychiolydd yr Ymgeisydd
- Ffion Muscroft — Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd
- Ian Roberts — Heddlu Gogledd Cymru
- Elizabeth Williams — Heddlu Gogledd Cymru
- Cyng. Nigel Pickavance — Aelod Lleol
- Cyng. Dylan Fernley — Aelod Lleol
- Awen Gwyn — Aelod o'r Cyhoedd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adan Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer cynnal Bar Chwaraeon ar lawr gwaelod yr eiddo fyddai'n cynnwys amryw o Sgriniau Teledu, Byrddau Pŵl, Byrddau Dartiau Rhyngweithiol a Pheiriannau Hap Chwarae. Ar yr ail lawr bydd Bar Coctel a Gwirodydd ynghyd â seddau arbennig a mannau cymdeithasu, Bythau Tynnu Lluniau ac ardal ddawnsio.

Gwnaed y cais mewn perthynas â Dramâu dan do a'r tu allan, Ffilmiau dan do, Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do, Adloniant Bocsio a Reslo dan do a'r tu allan, Cerddoriaeth Fyw dan do a'r tu allan, Cerddoriaeth wedi'i recordio Dan do a'r Tu Allan,

Perfformiadau Dawns Dan Do, Lluniaeth Hwyr yn y Nos dan do a'r tu allan a Chyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori oedd yn cynnwys sylwadau gan aelod o'r cyhoedd yn pryderu am gerddoriaeth fyw gan DJ, bandiau yn chwarae a cherddoriaeth gefndir ar ddwy lefel y lleoliad ynghyd a chais i sicrhau bod cynllun rheoli'r busnes yn cynnwys mesurau i ymdrin â llygredd sŵn a rhwystrau rheoli cwsmeriaid; a yw rheolwyr y bar wedi rhoi ystyriaeth ofalus i drefniadau mynediad a gadael yr eiddo?; yn bryderus y byddai cynnydd mewn ymddygiad gwrth gymdeithasol, gall arwain at wrthdaro a / neu achosi difrod i siopau cyfagos

Roedd sylwadau gan Iechyd yr Amgylchedd yn nodi pryder am yr oriau arfaethedig, cais i chwarae cerddoriaeth tu allan tan 21.00 ynghyd a bwriad i gael ardal eistedd allanol (er y byddai'n rhaid i'r cwmni wneud cais am drwydded gan y Gwasanaeth Priffyrdd i osod cadeiriau a byrddau ar y stryd). Adroddwyd bod cyfarfod ar y safle wedi ei gynnal rhwng Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r ymgeisydd mewn perthynas â'r cais Cynllunio (oedd ar y pryd yn mynd drwy'r broses gynllunio) a gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â sŵn mewn perthynas â'r unedau aer dymheru, sŵn gan gwsmeriaid a'r lefel sŵn a ragwelir yn yr eiddo preswyl cyfagos fel rhan o'r broses gynllunio.

Amlygwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi'r cais, ond yn mynegi pryderon am ddiogelwch y cyhoedd, ar ôl 04:00 pryd y bydd llai o adnoddau ganddynt. Wedi trafod y pryderon gyda'r ymgeisydd, awgrymwyd stopio gwerthu alcohol am 03:30am a chau am 04:00am ar y penwythnosau. Ategwyd bod yr Awdurdod Cyfrifol yn sicrhau bod asesiad risg yn ystyried presenoldeb goruchwyliaeth ddigonol mewn ardal lle mae gwrthrychau caled, fel peli a ffyn pŵl yn bresennol. Codwyd materion hefyd oedd yn ymwneud â rheoli traffig.

Ategwyd, yn dilyn defnydd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro dros y cyfnod 28ain - 30ain o Dachwedd 2024, bod sylwadau dienw wedi eu derbyn yn nodi, er nad oedd problemau ar y nos Iau na'r nos Wener, bod yr ardal ysmygu 'allanol' (ardal gyhoeddus ar y stryd) wedi bod yn swnllyd, ffenestri yn agored a sŵn cerddoriaeth uchel i'w glywed yng nghefn yr adeilad.

Roedd yr argymhelliad yn nodi y dylai'r Is-bwyllgor ystyried derbyn a chymhwyso'r oriau terfynu is ar gyfer gwerthu alcohol ar benwythnosau fel y cytunwyd rhwng yr Heddlu a'r ymgeiswyr. Argymhellwyd ymhellach fod y pryderon a amlinellwyd yn y sylwadau gan y Cyhoedd ac Iechyd yr Amgylchedd yn cael eu hystyried, a bod y mesurau lliniaru sŵn a'r amodau a argymhellwyd yn cael eu cynnwys yn yr Atodlen Weithredu os am gymeradwyo'r cais; yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor i gynrychiolydd y Cyngor ynglŷn â'r ardal allanol ac os oedd ardal arall benodol ar gael ar gyfer ysmygu o ystyried mai ardal gyhoeddus yw'r stryd fawr, tu allan i'r eiddo, nodwyd bod argymhelliad i gynnwys amod i sicrhau rheolaeth o'r ardal ac y byddai angen trwydded palmant i gael defnyddio'r ardal o flaen yr eiddo, sydd ddim yn annhebyg i fusnesau eraill.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ystod gweithgareddau oedd yn cael eu cynnig ac os oedd busnesau eraill tebyg yn y ddinas, nodwyd mai 'Bar Chwaraeon' oedd yma ac nid Clwb Nos. Nodwyd nad oedd eiddo arall ar y stryd fawr yn agor tan 04:00, ond bod Trilogy yn cau am 03:30

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd mai Clwb Chwaraeon oedd dan sylw a'r bwriad oedd cynnal digwyddiadau gwylio chwaraeon a gwneud defnydd o adeilad mawr, segur oedd wedi ei lleoli ynghanol y ddinas. Ynglŷn â'r ardal allanol, nododd bod cais ar wahân wedi ei gyflwyno i ddefnyddio'r ardal o flaen yr eiddo hyd 21:00. Nid oedd ysmygu a fêpio yn cael ei ganiatáu tu fewn i'r adeilad ac nid oedd eisiau hysbysu na hyrwyddo'r ardal allanol fel man ysmygu

d) Mewn ymateb i gwestiynau i'r ymgeisydd gan yr Is-bwyllgor a chynrychiolydd y Cyngor nododd yr ymgeisydd;

- Bod cynllun rheoli sŵn wedi ei gyflwyno
- Bod offer lleihau sŵn wedi ei brynu lle gellid rheoli'r lefelau sain
- Ei fod yn barod i reoli sŵn tu mewn i'r eiddo ond anodd fydd rheoli sŵn tu allan
- Bydd staff drysau ar gael yn rheolaidd
- Byddai unrhyw alcohol sy'n cael ei brynu i'w gario allan yn unig yn cael ei werthu mewn cynwysyddion wedi eu selio
- Bydd y mesurau a gyflwynwyd gyda'r cais yn cael eu cyfarch – yn cymryd materion trwyddedu o ddifrif
- Bod cyfarfod gyda Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn fuddiol
- Bod TCC o ansawdd uchel wedi ei osod; y Clwb yn rhan o fenter Pubwatch a Sialens 25
- Bydd linc radio NIGHT SAFE mewn defnydd fel diogelwch ychwaegol a bod bwriad ail gyfwlyno 'angylion stryd' fydd yn cael defnyddio'r eiddo fel eu canolfan

dd) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Ian Roberts a Liz Williams, Heddlu Gogledd Cymru**

- Cyfarfod gyda'r ymgeisydd i drafod y drwydded wedi bod yn fuddiol
- Dim yn gwrthwynebu'r cais ac yn cytuno byddai'r fenter yn hwb i'r economi leol
- Tynnu sylw bod nifer swyddogion yr Heddlu fydd ar gael ar ôl 04:00 yn isel ac felly yn awgrymu gall hyn arwain at broblemau
- Pryder bod y stryd fawr gerllaw yn agor i gerbydau - sylwadau wedi eu cyflwyno i Cyngor Gwynedd. Gyda nifer o bobl, a cherbydau ar y stryd fawr, rhaid ystyried diogelwch y cyhoedd

**Ffion Muscroft, Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd**

- Yn cefnogi'r fenter ond yn pryderu am yr effaith negyddol ar fwynderau trigolion cyfagos

- Pryder y bydd sŵn yn cario ac felly cais i osgoi defnydd cerddoriaeth tu allan a rheoli'r 'base rate' tu mewn i'r adeilad
- Sŵn cwsmeriaid yn casglu yn yr ardal allanol yn cario ac felly awgrym cau'r ardal am 21:00 gan arddangos arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid barchu preswylwyr cyfagos, yn enwedig wrth ymadael.
- Ymweliad ar hap ar y 29ain o Dachwedd wedi cadarnhau bod y 'base rate' yn uchel o fewn yr eiddo. Rheolwr yr eiddo wedi rhoi'r sŵn i lawr ac wedi cau'r drysau

**Awen Gwyn, Aelod o'r Cyhoedd**

- Bod rhan yma o'r stryd fawr yn berchen iddi hi hefyd fel landlord busnes cyfagos - nid y Clwb yw perchennog yr ardal allanol - yr agwedd yma yn peri pryder
- Bod Strategaeth Bangor yn cynnwys preswylwyr ac nid busnesau yn unig. Yr ardal yma gyda chynlluniau mewn lle ar gyfer oddeutu 50 fflat – rhaid ystyried yr effaith ar breswylwyr y fflatiau hyn a rheoli'r sŵn

**Cyng. Nigel Pickavance, Aelod Lleol**

- Bod 'Ardal Ni' yn gynllun i droi stryd fawr Bangor yn ardal gymdeithasol. Angen hyn i adfywio canol y ddinas gyda chais wedi ei wneud i'r Cyngor ystyried cau'r stryd fawr i gerbydau
- Ei fod yn croesawu'r cynllun NIGHT SAFE
- Yn cytuno mai ardal siarad yn unig sydd ei angen tu allan i'r eiddo - dim angen cerddoriaeth yma
- Y fenter o fudd i'r ddinas - yn safle diogel, yn fywiog ac yn lleoliad cymdeithasol

**Cyng. Dylan Fernley, Aelod Lleol**

- Ei fod yn gefnogol i'r fenter
- Bod y stryd fawr angen adfywiad
- Yn nodi nad oes angen cerbydau ar y stryd fawr – rhaid ystyried diogelwch y cyhoedd
- Os bydd unrhyw broblemau neu bryderon pellach, bydd rhaid i'r ymgeisydd fynd i'r afael â hwy

Cydnabuwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd a diolchwyd i bawb am y sylwadau hynny.

Yn manteisio ar ei hawl i grynhoi ei achos, nododd yr ymgeisydd y byddai'r fenter yn cyflogi 32 o bobl ac yn fuddsoddiad sylweddol i geisio adfywio canol dinas Bangor.

e) Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau isod**

- **Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15munud na'r lefel LZeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:2014**
- **Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1 bydd perchennog yr eiddo yn gwneud y canlynol:**
  a) **Gwneud unrhyw waith ynysu / arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio ac amod sŵn**
- **Unwaith bydd lefel ar ddyfais reoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
- **Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth yn allanol**
- **Rhaid cau'r ardal eistedd allanol ar ol 21:00**
- **Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, heblaw am fynediad i mewn ac allan o'r eiddo.**
- **Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 09:00 . Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead**

**Amodau ychwanegol i gynnwys**

- **Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**
- **Stopio gwerthu alcohol ar y penwythnosau am 03:30 a chau am 04:00**

Yng nghyd-destun **Trosedd ac Anrhefn**, ni gyflwynodd yr Heddlu unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cais ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, roedd Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn fodlon gyda'r cais pe byddai'r amodau a gynigwyd ganddynt mewn ymateb i'r cais ac a nodwyd uchod yn cael eu cynnwys ar y drwydded. Nid oedd unrhyw sylwadau eraill wedi eu cyflwyno mewn cysylltiad â'r egwyddor hwn felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau. Clywodd yr Is-bwyllgor nifer o sylwadau yn mynegi pryder ynglŷn â phosibilrwydd o ymddygiadau gwrthgymdeithasol a lefelau sŵn. Serch hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o broblem sŵn.

Eglurodd yr ymgeisydd fod sustem monitro sŵn cymhleth wedi ei gomisiynu yn ogystal â chamerâu TCC arbennig i sicrhau fod lefelau sŵn ddim yn ymyrryd ar drigolion cyfagos. Nid oedd unrhyw sylwadau eraill wedi eu cyflwyno mewn cysylltiad â'r egwyddor hwn felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau. Wrth werthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan y trigolion lleol, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn fod tystiolaeth i wrthod caniatáu'r drwydded. Petai unrhyw broblemau yn codi mewn cysylltiad â'r egwyddorion trwyddedu byddai'r Ddeddf yn caniatáu cyfeirio trwydded i'w hadolygu gan yr awdurdod.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed** ni chyflwynwyd sylwadau na

thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o’r fath drwy roi rhybudd o apêl i’r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â’r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau’r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:00

.

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**Tachwedd 11eg 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes a John Brynmor Hughes

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Lyndsey Thomas (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu) - arsylwi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Gweler isod

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS TRWYDDED EIDDO: Clwb Rygbi Y Bala, Maes Gwyniad, Heol Tegid, Y Bala**

**Eraill a wahoddwyd:**

Huw Dylan (Cadeirydd Clwb Rygbi Y Bala)
John Williams (Is-gadeirydd Clwb Rygbi Y Bala)
Harry Guttridge – Clwb Rygbi Y Bala
Mike a Manon Dodd – preswylwyr lleol

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eluned Jones (preswylydd lleol), Eifion a Christine Roberts (preswylwyr lleol), Huw Antur (Clerc Cyngor Tref Y Bala), Elisabeth Williams (Swyddog Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru) a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Clwb Rygbi Y Bala, Maes Gwyniad, Heol Tegid, Y Bala. Bwriad y cais yw cael gwerthu alcohol yn ystod gemau drwy'r tymor rygbi rhwng Medi a Mai gyda'r mwyafrif o ddefnydd dros y penwythnos.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori oedd yn cynnwys nifer o wrthwynebiadau gan y cyhoedd yn pryderu y bydd caniatáu i'r clwb werthu alcohol yn creu ymddygiadau gwrthgymdeithasol, aflonyddwch, cynnydd mewn fandaleiddio a phryderon am ddiogelwch y cyhoedd os ydynt yn cerdded adref yn feddw ger y Llyn a'r Rheilffordd.

Derbyniwyd sylw gan Heddlu Gogledd Cymru oedd yn adrodd na dderbyniwyd unrhyw ddigwyddiad o drosedd ac anrhefn yn gysylltiedig â'r Clwb Rygbi yn ystod cyfnodau defnyddio rhybuddion digwyddiadau dros dro, ac felly nid oedd gwrthwynebiad ganddynt. Ategwyd bod Cyngor Tref y Bala yn gefnogol i'r cais, ond yn argymell i'r oriau gael eu cyfyngu I 13:00 - 21:00.

Adroddwyd bod sylwadau ychwanegol oedd yn gefnogol i'r cais wedi eu derbyn a hynny tu allan i'r cyfnod ymgynghori. Nodwyd y byddai angen Cyngor cyfreithiol os dylid ystyried y llythyrau ai peidio.

Roedd y Swyddog yn argymell bod yr Is-bwyllgor yn ystyried sylwadau / pryderon yr ymatebwyr a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb yr ymgeisydd i'r sylwadau / pryderon hynny. Amlygwyd na dderbyniwyd cwynion gan yr Awdurdod Trwyddedu nac Uned Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn sawl digwyddiad a ganiatawyd drwy ddefnydd Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro. O ganlyniad roedd y Swyddog yn argymell caniatáu'r cais gydag amodau.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd Cadeirydd y Clwb Rygbi y sylwadau canlynol;

- Bod rygbi yn gêm gymdeithasol a bod trafod, herio, tynnu coes a hel atgofion yn rhan allweddol o'r diwylliant yn ystod ac wedi gêm - dyma brif reswm dros gyflwyno cais
- Bod y Clwb eisiau gwella a datblygu awyrgylch gan estyn croeso i gefnogwyr a thimau ymweld
- Bod yr ystafell gymdeithasol, 'Ystafell Yogi' wedi ei huwchraddio ac o dan reolaeth Is-bwyllgor fydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r bar. Yr Is-bwyllgor yn gweithio'n galed i sicrhau safon hylendid ac yn cydweithio gydag awdurdodau i gyrraedd safon 5. Y cam naturiol nesaf oedd ceisio trwydded safle.
- Bod y digwyddiadau Rhybudd Digwyddiad dros dro wedi bod yn llwyddiannus - wedi creu awyrgylch braf, ymdeimlad o berthyn, gan sicrhau defnydd cymedrol a chyfrifol o alcohol. Ar hyn o bryd y timau a chefnogwyr yn defnyddio Plas Coch fel lleoliad cymdeithasol sydd ynghanol y Dref
- Llwyddiant y Clwb yn dod a chostau ychwanegol sydd angen eu cyfarch - oddeutu 230-300 o unigolion yn chwarae yn wythnosol. Byddai elw o'r bar yn cael ei fuddsoddi mewn adnoddau i'r Clwb i wasanaethu'r gymuned a'r ardal ehangach
- Clwb Rygbi Y Bala yw'r unig glwb rygbi yng Ngogledd Cymru sydd heb drwydded

- Dim bwriad gwrthdaro gyda chymdogion - nid yw hwn yn ddatblygiad newydd - trwyddedau achlysurol wedi cael eu defnyddio dros y tair blynedd ddiwethaf. Bydd pob ymgais yn cael ei i'w wneud i geisio lleddfu eu pryderon:
  - ymddygiad gwrthgymdeithasol. Is-bwyllgor cadarn a chyfrifol yn sicrhau na fydd goddef ymddygiad sarhaus na dirmygus. Bydd deilydd y drwydded yn gosod safonau a chadw trosolwg ar y sefyllfa
  - bod gan y Clwb Bolisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sydd yn cynnwys cod ymddygiad (wedi ei lunio gyda chanllawiau Rygbi Gogledd Cymru) ond angen ei ddiwygio
  - bod gwaharddiadau yn cael eu gosod os bydd ymddygiad gwael – posteri o gwmpas yr eiddo yn hysbysu hyn
  - Polisi Her 25 yn cael ei weithredu
  - Nid yw'r Clwb yn goddef defnydd cyffuriau – bydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei gyflwyno i'r Heddlu
  - Y polisïau mewn lle pe bai achos yn codi
  - Nad yw'r problemau traffig i gyd yn berthnasol i'r Clwb Rygbi - rhai cerddwyr yn defnyddio'r maes parcio. Y Clwb yn y broses o brynu'r maes parcio gan y Parc Cenedlaethol gyda bwriad o ddefnyddio cae cysylltiedig fel maes parcio estynedig. Wedi sicrhau perchnogaeth, bydd Swyddog Rheoli Parcio yn sicrhau mai at ddefnydd y Clwb Rygbi yn unig fydd y maes parcio.
  - Diogelwch Plant – Y Clwb yn dilyn polisi llym Undeb Rygbi Cymru - mesurau yn eu lle ynghyd â mesurau diogelwch y cyhoedd
  - Bod bwriad llunio cynllun rheoli sŵn i leddfu pryderon – ffenestri dwbl yn yr adeilad a bydd bwriad cadw at uchafswm capasiti rhag tarfu ar gymdogion
  - Nad yw cael bar yn dirmygu cof am Yogi – sefyllfa wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf - trwydded bellach yn rhan o'r cynllun busnes.

ch) Mewn ymateb i gwestiynau i'r ymgeisydd gan yr Is-bwyllgor a chynrychiolydd y Cyngor;
- O ran cadarnhau oriau agor – nid oedd bwriad agor pob dydd. Y drwydded yn rhoi hyblygrwydd defnydd, ond bwriad y Clwb yw cyfyngu defnydd i benwythnosau yn unig.
- Byddai'r Ddeddf yn caniatáu cerddoriaeth fyw / cynnal adloniant rheoledig. A oes bwriad gwneud defnydd achlysurol / rheolaidd o hyn? Mewn ymateb, nodwyd nad oedd bwriad penodol ar hyn o bryd i chwarae cerddoriaeth fyw, ond efallai yn opsiwn i'r dyfodol er nad oedd yr ystafell yn ddigon mawr i gynnal grŵp. Nododd y Rheolwr Trwyddedu y byddai angen nodi hyn yn y cynllun rheoli sŵn.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

Mike a Manon Dodd
- Yn diolch am y cyfle i gael mynegi eu pryderon yn sgil cais trwydded y Clwb Rygbi
- Er bod yr Heddlu yn nodi nad oedd cwynion wedi eu derbyn yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, bod cyfnodau lle y gallent fod wedi cwyno
- Pryderu y gall pethau fynd allan o reolaeth pan fydd alcohol ar gael - eisiau osgoi hyn
- Eu bod yn byw o fewn 20m i fynediad y Clwb gyda gwrychoedd yr ardd yn ffinio gyda'r Clwb ac felly sŵn y cario o ddau gyfeiriad
- Derbyn bod y Clwb yn gwneud gwaith da gydag oedolion a phlant yr ardal, ond pam bod angen cynnwys alcohol mewn digwyddiadau iechyd a ffitrwydd?
- Derbyn yr elfen gymdeithasol a chael diod i gymdeithasu ar ddiwedd gêm, ond pam gofyn hyd at 11pm? Byddai hyn yn sicr o greu sŵn diangen ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mewn ymateb i gwestiynau i'r ymatebwyr gan yr Is-bwyllgor, nodwyd;

- O ran esiamplau o gwynion, bod ceir yn parcio o flaen y tŷ a'u bod yn methu cael y car allan, lefelau sŵn ymwelwyr a cheir yn refio yn y maes parcio
- Yng nghyd-destun digwyddiadau dros dro ar ffaith na fu cwynion swyddogol, nodwyd nad oedd y digwyddiadau hynny wedi mynd yn hwyr, ond pryder, gyda thrwydded hyd 23:00 y gall digwyddiadau fynd ymlaen yn hwyrach ac felly'n cyflwyno ffactorau megis sŵn a niwsans cyhoeddus. Pryder y bydd digwyddiadau megis gwylio gemau rhyngwladol yn y Clwb hefyd yn mynd i greu problemau.
- Cadarnhawyd safle'r tŷ a'i agosatrwydd at y Clwb

Cydnabuwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd a diolchwyd i bawb am y sylwadau hynny

dd) Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu**

**Oriau agor**
**Dydd Sul: 09:00 - 23:30**
**Dydd Llun: 09:00 – 23:30**
**Dydd Mawrth: 09:00 – 23:30**
**Dydd Mercher: 09:00 – 23:30**
**Dydd Iau: 09:00 – 23:30**
**Dydd Gwener: 09:00 – 23:30**
**Dydd Sadwrn: 09:00 – 23:30**

**Cyflenwi Alcohol Ar yr Eiddo**
**Dydd Sul: 09:00 - 23:00**
**Dydd Llun: 09:00 – 23:00**
**Dydd Mawrth: 09:00 – 23:00**
**Dydd Mercher: 09:00 – 23:00**
**Dydd Iau: 09:00 – 23:00**
**Dydd Gwener: 09:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn: 09:00 – 23:00**

**Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**

Nodyn:
Derbyn cyngor ar fesurau lliniaru sŵn

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i’r canlynol.

Yng nghyd-destun **Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynodd yr Heddlu unrhyw wrthwynebiad mewn ymateb i'r cais ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon. Nododd yr Heddlu hefyd nad oedd unrhyw fater troseddol nac anrhefn wedi codi tra bu'r safle yma yn gweithredu gwerthu alcohol drwy ddefnyddio Rhybudd Digwyddiad Dros Dro ar sawl achlysur

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, derbyniwyd nifer o sylwadau gan gymdogion y Clwb oedd yn mynegi pryder ynglŷn ar posibilrwydd o ymddygiadau gwrthgymdeithasol a lefelau sŵn. Serch hynny, nid oedd sylwadau na gwrthwynebiad gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol na phroblemau sŵn. Eglurodd Cadeirydd y Clwb eu bod wrthi'n cynllunio polisi lliniaru sŵn a chredai'r Is-bwyllgor y byddai o fudd mawr i'r cymdogion os gall y Clwb edrych am gyngor a gweithdrefnau a fyddai’n eu cynorthwyo i liniaru unrhyw sŵn o'r Clwb. Nid oedd unrhyw sylwadau eraill wedi eu cyflwyno mewn cysylltiad å'r egwyddor hon felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau.

Wrth werthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan y trigolion a'r cymdogion lleol nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn fod tystiolaeth i awgrymu y byddai caniatáu’r cais yn arwain at broblemau o dan y pennawd hwn. Roedd yr oriau agor yn fater cynllunio busnes y Clwb Rygbi a mynegodd yr ymgeisydd mai annhebygol iawn fyddai i'r Clwb fod yn weithredol bob dydd, drwy'r dydd. Bydd y Clwb gan fwyaf ar agor yn ystod tymor lle chwaraeir rygbi gyda'r defnydd mwyaf wedi ei gyfyngu i'r penwythnosau. Petai unrhyw broblemau yn codi mewn cysylltiad å'r egwyddorion trwyddedu, byddai’r Ddeddf yn caniatáu cyfeirio trwydded i'w hadolygu gan yr Awdurdod.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o’r fath drwy roi rhybudd o apêl i’r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â’r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau’r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:30 a daeth i ben am 12:35

.